

Cynllun Iaith Gymraeg Plantlife 2023

Datganiad Polisi

Nod Plantlife yw darparu gwasanaeth cyson sy'n gwella'n barhaus i siaradwyr Cymraeg sy'n byw yng Nghymru a thu hwnt, drwy gyfrwng pa bynnag ddull y byddan nhw'n ymgysylltu â ni. Dylid darllen y Cynllun hwn ar y cyd â'n Polisi Iaith Gymraeg (2021).

Plantlife sy'n llwyr gyfrifol am gyfrifoldeb strategol y Polisi a'r Cynllun hwn, ac arweinir materion yn ymwneud â'u gweithredu gan y Tîm Rheolaeth Hŷn.

Cyflwyniad

Mae Cymru yn wlad ddwyieithog. Rydym wedi creu'r Cynllun hwn sy'n amlinellu be all y cyhoedd yn gyffredinol, ein haelodau, a'n gwirfoddolwyr, ein cyrff sy'n bartneriaid a'n staff ein hunain ei ddisgwyl gennym ni o ran gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg.

Mae Plantlife wedi paratoi'r Cynllun Iaith Gymraeg gwirfoddol hwn, sy'n amlinellu sut y byddwn yn gweithredu yng Nghymru wrth ddefnyddio'r ddwy iaith, a beth all y sawl sy'n ymgysylltu â ni ei ddisgwyl. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn ffurfio rhan o ymrwymiad Plantlife i gyfathrebiadau o ansawdd uchel ledled Cymru ac fe'i datblygwyd i alluogi Plantlife i sicrhau cynnydd cynaliadwy tuag at ei amcanion a amlinellir yn ein Polisi Iaith Gymraeg.

Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o staff Plantlife i gyflawni eu swyddi wrth gydymffurfio â'r Polisi a'r Cynllun gan eu bod yn berthnasol i'w maes gwaith. Does dim yn y Polisi na'r Cynllun Iaith Gymraeg sy'n gwrthdaro gydag amcanion elusennol Plantlife, nac yn peryglu amcanion elusennol Plantlife.

1. Egwyddorion Cyffredinol

1.1 Cydraddoldeb. Ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafrinol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau.

1.2 Ymwybyddiaeth. Bydd Plantlife yn sicrhau bod ein staff a'n gwirfoddolwyr, yn fewnol, yn ymwybodol ym mhle y gellir cael mynediad at wasanaethau'r iaith Gymraeg o fewn y corff, a sut i gefnogi eraill i gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Byddwn yn sicrhau y bydd ein Polisi a'n Cynllun ar gael yn gyhoeddus fel bod y sawl sy'n dymuno ymgysylltu â ni yn gallu darganfod mwy am ein gwasanaethau iaith.

1.3 Cefnogaeth. Byddwn yn darparu hyfforddiant i gefnogi staff i weithredu ein Polisi a Chynllun Iaith Gymraeg mewn modd sy'n briodol ac yn gymesur. Bydd Plantlife yn ceisio sicrhau bod digon o staff sy'n siarad Cymraeg o fewn tîm Plantlife Cymru ar unrhyw bryd i gefnogi'r sawl sy'n dymuno ymgysylltu â ni trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn hefyd yn annog staff i ddefnyddio eu medrau yn yr iaith Gymraeg a'u helpu i'w datblygu ymhellach, lle bod hynny'n bosibl.

1.4 Cyfieithu. Lle bydd angen cefnogaeth cyfieithwyr, byddwn yn defnyddio cyfieithwyr y Gymraeg sy'n aelodau o gorff proffesiynol perthnasol, yn cynnwys Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (y corff ar gyfer cyfieithwyr a dehonglwyr y Gymraeg).

2. Safon Gwasanaeth

Mae'r adran hon yn rhestru'r prif wasanaethau y byddwn yn eu darparu yn y Gymraeg i'r sawl a fydd yn ymgysylltu â ni.

2.1 Gohebiaeth

- Ymateb i ohebiaeth. Atebir pob gohebiaeth ysgrifenedig (yn cynnwys e-bost) yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol. Byddwn yn ateb amseroedd ymateb safonol yn y ddwy iaith. Asesir blaenoriaeth yn ôl pwnc a rhoir blaenoriaeth gyfartal i'r ddwy iaith o fewn hwnnw. Sicrhau y bydd cyllideb a chefnogaeth ar gael i alluogi blaenoriaethu cyfieithu'r ohebiaeth os nad yw'r aelod o staff sy'n derbyn yr ohebiaeth yn siaradwr Cymraeg.
- Gweithio gyda dewis iaith pobl. Byddwn yn amlygu'r ffaith ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y ddwy iaith. Gwnawn hyn, er enghraifft, drwy gyflwyno baneri ar batrymluniau pennau llythyr perthnasol, llofnodion e-bost a phapur ysgrifennu ac, ar ein gwefan, byddwn yn datgan ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg – yn newis iaith yr un sy'n gohebu.
- Rhoi gohebu ar waith. Ar gyfer gohebiaeth allanol un-i-un a roir ar waith gan staff, byddwn yn parchu unrhyw ddewis iaith a nodir.
- Bydd swmp ohebiaeth a anfonir o fewn Cymru (ac nid yn unig gan Gymru) yn ddwyieithog. Yn yr achos hwn dylai'r Gymraeg fod uwchben y Saesneg neu ar y llaw chwith.
- Bydd ein papur sgwennu a'n troedynnau e-bost Cymreig yn ddwyieithog ac yn nodi a fydd yr aelod o staff yn siaradwr Cymraeg neu'n ddysgwyr.
- Bydd gohebiaeth awtomatig ar gyfer Cymru ee negeseuon allan-o-swyddfa, yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg o flaen y Saesneg.

2.2. Galwadau ffôn

- Rhoi galwadau ar waith. Lle byddwn yn gwybod dewis iaith yr unigolyn y byddwn yn ei alw, byddwn yn gwneud pob ymdrech i wireddu hynny yn yr iaith honno.
- Mae llinellau ffôn y DU hefyd yn gwasanaethu aelodau Plantlife yng Nghymru, a gwneir pob ymdrech i drosglwyddo galwyr sy'n dymuno siarad Cymraeg i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg (neu'n nodi'r alwad ac yn trefnu galwad ffôn yn ôl). Byddwn yn sicrhau bod pawb sy'n staffio'r gwasanaeth hwn yn ymwybodol o sut i wneud hyn.
- Bydd gwefan Plantlife yn nodi pa aelodau o staff sy'n siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr, fel bod y sawl sy'n galw'n gwybod beth i'w ddisgwyl wrth gysylltu gydag unigolion ac yn gallu dewis staff i gysylltu â nhw yn unol â hynny (ee defnyddio graffig bathodyn pin safonol).

- Pe bai/pan fydd llinell benodol i Plantlife Cymru, fe ddylai fod â neges ffôn ateb dwyieithog).

2.3. Cyfarfodydd

- Wrth drefnu cyfarfodydd mawr cyhoeddus agored lle bydd cynrychiolydd yn bresennol a lle rhagwelir y bydd dros 50 yn eu mynychu yng Nghymru (megis ymgynghoriadau, lle rhoir anogaeth i gyfraniadau o'r gynulleidfa), byddwn yn ceisio darparu cyfieithu ar y pryd ac annog y defnydd o'r Gymraeg yn y cyfarfodydd. Cefnogir siaradwyr i ddefnyddio eu dewis iaith. Dylai'r cyfarfod, o leiaf, fod â chadeirydd a all gyflwyno'r cyfarfod yn ddwyieithog a chyfieithu/crynhai cyfraniadau yn y Gymraeg gan aelodau'r gynulleidfa.
- Ar gyfer cyfarfodydd mawr a fynychir gan y cyhoedd (dros 50 o bobl) yn dilyn gwahoddiad neu archebu lle, gyda chynrychiolydd yn cymryd rhan, megis cynadleddau, bydd ein gwahoddiadau yn ddwyieithog a byddwn yn casglu data ar ddewis iaith ymlaen llaw. Pan fydd 10% neu fwy yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yna darperir cyfieithu ar y pryd.
- Rhoir anogaeth i sleidiau dwyieithog mewn cyfarfodydd cyhoeddus mawr, wrth gydnabod, ar gyfer rhai pynciau cymhleth a technegol gyda chryn ddefnydd o eiriau, na fyddai modd gwireddu hyn bob tro. Ar gyfer digwyddiadau llai gyda chyflwyniadau (ee sgysiau i grwpiau cymunedol neu mewn cyfarfodydd partneriaeth) fe all staff ddefnyddio sleidiau yn yr iaith o'u dewis nhw.
- Ar gyfer pob cyfarfod lle na fydd y cyhoedd yn bresennol, gwneir asesiad o anghenion iaith yn seiliedig ar natur y gynulleidfa, y gymuned, a'r cyfranwyr.
- Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd gyda siaradwyr o grwpiau eraill, byddwn yn gofyn pa iaith y bydd cyflwynwyr/cyfranwyr yn dymuno ei dewis, a sicrhau bod cyfieithu ar gael i'r sawl nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg os bydd hynny'n addas ac yn gymesur.

2.4 Digwyddiadau cyhoeddus

Wrth gynnal neu fynychu digwyddiadau cyhoeddus megis sioeau, bydd Plantlife yn ymdrechu i gefnogi presenoldeb aelod o staff neu wirfoddolwr sy'n siarad Cymraeg lle bynnag bod hynny'n bosibl. Cynhyrchir yr holl ddeunydd a gwybodaeth arddangos sy'n benodol i Gymru yn ddwyieithog. Mae'n bosib y gallai deunydd i'w ddefnyddio ledled y DU fod yn eithriad angenrheidiol.

2.5 Cyhoeddusrwydd a hysbysebu

Bydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu ffurfiol yng Nghymru yn ddwyieithog os na fydd llwyfan y cynhalwyr yn dymuno fel arall. Byddwn yn ymgysylltu â llwyfannau sy'n cynnig cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn y ddwy iaith.

2.6 Cyhoeddiadau

Cynhyrchir deunydd a gaiff ei argraffu ar gyfer ei ddefnyddio yn benodol yng Nghymru yn ddwyieithog mewn un dogfen (yn arbennig ar gyfer argraffu). Neu, lle cyhoeddir copïau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y copi Saesneg yn datgan yn glir bod fersiwn Gymraeg ar gael ac fel arall, a bydd copïau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu dosbarthu a'u

harddangos yn gyfartal. Dewis Plantlife yw defnyddio copïau ar wahân ar-lein. Wrth gynllunio cyhoeddiadau dwyieithog byddwn yn dilyn egwyddorion [arweiniad cynllunio dwyieithog](#) Comisiynydd yr Iaith Gymraeg

Efallai na fydd yn gymesur i gyhoeddiadau a gynhyrchir ar gyfer eu defnyddio ledled y DU gael eu cynhyrchu yn y ddwy iaith, ond ystyrir y mater yn gynnar yn y cyfnod cynllunio adnoddau fel bod modd hwyluso'r ddarpariaeth honno lle bynnag bod hynny'n bosibl. Lle cynhyrchir cyhoeddiadau'r DU yn Saesneg ni fydd yn bosibl eu defnyddio o dan rhai amgylchiadau yng Nghymru (ee o fewn system addysg Cymru neu ar gyfer eu dosbarthu gan Lywodraeth Cymru). Efallai y bydd yn bosibl ystyried cynnwys yn yr iaith Gymraeg (rhannol) neu grynodedau.

Bydd yr adnoddau canlynol a gaiff eu creu yng Nghymru ar gael yn y ddwy iaith fel mater o drefn:

- pob tystiolaeth gan Plantlife sydd ar gael yn gyhoeddus ac adroddiadau adfocatiaeth
- taflenni a phosteri
- e-newyddion a blogiau o Gymru
- pob dogfen arall sydd ar gael i'r cyhoedd (ee ffurflenni a gwblheir gan bobl nad ydyn nhw'n rhan o Plantlife).

Dylai cyhoeddiadau a gynhyrchir ar gyfer eu postio'n uniongyrchol i aelodau ledled y DU (megis apeliadau) hefyd fod yn ddwyieithog neu wedi eu targedu yn unol â'r dewis iaith a gofnodwyd.

Fel arfer, ni fydd adroddiadau a gynhyrchir yn bennaf ar gyfer eu defnyddio o fewn y corff (megis cofnodion, cynlluniau project, adroddiadau project, cynlluniau rheolaeth ayyb) yn ddwyieithog. Mae'n bosib y bydd adroddiadau i noddwyr yn cael eu hysgrifennu yn newis iaith yr awdur, cyn belled â bod hynny'n cydymffurfio gyda disgwyliadau/gofynion y noddwr ac/neu'r sawl fydd yn ei dderbyn.

Fel arfer, bydd adroddiadau tystiolaeth technegol yn Saesneg ond yn cynnwys crynodeb pan yn cyfeirio at waith yng Nghymru.

Ar hyn o bryd cyhoeddir cylchgrawn yr elusen, Plant Life, yn Saesneg yn unig. Byddwn yn ymchwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno rhyw ffurf o'r iaith Gymraeg yn y tymor hir.

Rydym yn ymwybodol y gall rhywfaint o'n gwaith cyhoeddedig gynnwys termau technolegol ac hoffem godi ymwybyddiaeth am y rhain ac annog eu defnydd. Byddwn yn defnyddio banciau terminoleg sydd ar gael i sicrhau defnydd priodol o derminoleg, ac yn ystyried dull 'darllenydd wedi ei raddio' gyda blychau terminoleg lle gallai hyn fod â rhan mewn sicrhau mynediad at y dogfennau.

2.7 Cyfryngau ac allgymorth

- Y cyfryngau. Byddwn yn darparu gwybodaeth i'r cyfryngau yng Nghymru yn yr iaith sy'n arferol i'r cyfryngau sydd am ei derbyn, neu yn ôl y cais.
- Cyfryngau cymdeithasol. Lle rydym yn rhoi cyfathrebu ar waith ac yn ei gynllunio ymlaen llaw ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn paratoui cynnwys

ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ar broffil Cymru. Pan fyddwn yn ymateb i gyfraniadau i'n safle, byddwn yn sicrhau ein bod yn ymateb i'r ymatebion yn Gymraeg o fewn yr un ffrâm amser ag y byddem yn ymateb i ymatebion yn Saesneg. Wrth bostio'n fyw (ee o ddigwyddiadau), byddwn yn ymdrechu i bostio'n ddwyieithog, ond yn cydnabod na fydd hyn yn bosibl bob amser. Bydd rhannu cynnwys gan eraill yn digwydd yn unol â iaith y grŵp arall, ond byddwn yn rhagweithiol wrth rannu cynnwys ddwyieithog ac yn yr iaith Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Dylid creu meme, graffig cymdeithasol ac adnoddau a gynlluniwyd yn bennaf ar gyfer eu rhannu drwy gyfrwng llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn y ddwy iaith cyn eu defnyddio yng Nghymru.

- Datganiadau i'r wasg. Bydd datganiadau i'r wasg a ryddheir i ddosbarthwyr cyfathrebu a leolir yng Nghymru yn cael eu darparu yn ddwyieithog.
- E-gylchlythyrau, bwletinau ayyb. Cynhyrchir e-gylchlythyrau a chynnwys cyfatebol arall sy'n benodol i Gymru yn ddwyieithog. Ni fydd e-gylchlythyrau ledled y DU yn ddwyieithog.
- Dylid gosod y Gymraeg yn gyntaf; pe bai angen, gellir defnyddio pennawd yn nodi bod y cynnwys yn ddwyieithog a bod modd sgrolio i lawr ar gyfer Saesneg.

2.8 Gwefan

Cynhyrchir cynnwys ar gyfer tudalennau Cymru yn ddwyieithog, a gwneir ymdrechion i weithio tuag at wasanaeth ar-lein mwy ddwyieithog ar gyfer ardaloedd eraill lle mae cynulleidfau Gymreig sylweddol. Bydd y wefan ledled y DU yn cyfeirio defnyddwyr at sut i gael mynediad at gynnwys a gwasanaethau Gymreig drwy gyfrwng ardal Lle Rydym yn Gweithio.

Byddwn yn cyhoeddi ein Polisi a Chynllun ar ein gwefan.

2.9 Apiau

Bydd apiau a gynhyrchir yn benodol o fewn ac ar gyfer Cymru yn ddwyieithog. Efallai na fydd yn gymesur i apiau a gynhyrchir ar gyfer eu defnyddio ledled y DU fod yn ddwyieithog, ond ystyrir y mater yn gynnwys o fewn y cyfnod cynllunio adnoddau fel bod darpariaeth yn cael ei hwyluso lle bynnag bod hynny'n bosibl. Dylid diweddarau apiau sy'n bodoli eisoes nad ydyn nhw'n darparu ar gyfer yr iaith Gymraeg lle bod hynny'n bosibl.

2.10 Arwyddion

- Ni fydd yr holl arwyddion y byddwn yn eu creu yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn cynnwys o ran maint ffont a chywirdeb iaith.
- Bydd pob arwydd parhaol mewn unrhyw swyddfa Plantlife Cymru yn y dyfodol, a gwarchodfeydd natur a saif yng Nghymru, yn ddwyieithog gyda'r iaith Gymraeg yn ymddangos uwchben neu i'r chwith o'r Saesneg.
- Byddwn yn ymdrechu i gynhyrchu arwyddion ddwyieithog dros dro ym mhob achos lle bod eu hangen, ond efallai y bydd eithriadau'n digwydd lle mae mater drwyddo draw o bryder enbyd o ran diogelwch. Mewn achosion o'r fath bydd staff yn ceisio uwchraddio'r arwyddion ddwyieithog cyn gynted ag y bydd hynny'n rhesymol ac yn ymarferol.

2.11 Dogfennau contractau a thendro

- Pan fyddwn yn caffael gwasanaethau gan gyflenwyr, byddwn yn asesu a fydd angen cynnwys unrhyw anghenion o ran yr iaith Gymraeg ee cyhoeddi, arwyddion, ac unrhyw fedrau cyfathrebu yn yr iaith Gymraeg.
- Dylid cyhoeddi gwahoddiad ffurfiol i dendro dogfennaeth ar gyfer Cymru yn ddwyieithog.

2.12 Hunaniaeth a brandio corfforaethol

Adnabyddir staff a gwaith Plantlife o fewn Cymru fel Plantlife Cymru. Defnyddir logo ac enw Plantlife Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn nisgrifiad ein gwaith yng Nghymru yn bersonol neu yn ysgrifenedig. Ar gyfer cyhoeddiadau, dilynir canllawiau brandio Plantlife.

2.13 Bas data o ddewis iaith

Nid yw'r system rheoli perthynas cwsmer presennol a ddefnyddir gan Plantlife yn cofnodi dewis iaith. Mae'r system hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, a byddwn yn gweithio tuag at system sy'n cofnodi dewis iaith aelodau ac felly yn ein galluogi i gyfathrebu â nhw yn eu dewis iaith (Cymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog).

Dylai unrhyw gronfeydd data rhanddalwyr lleol a gynhelir gan staff yng Nghymru gofnodi hefyd ddewis iaith er y bydd disgwyl i'r rhain ddod yn anarferedig dros gyfnod o amser (ag eithrio pwrpasau tymor byr ee mynychu digwyddiadau).

2.14 – Gwirfoddoli a chymuned

Byddwn yn ymdrechu i gynyddu ein cynnig yn yr iaith Gymraeg wrth sicrhau rhan gwirfoddolwyr ac wrth ymgysylltu'n addysgiadol â'r gymuned, ee cynnig sesiynau iaith Gymraeg drwy gyfrwng ymweliadau ag ysgolion.

3. Gweithredu a monitro

3.1 Medrau iaith staff

Ymgwymerir yn gyntaf ag archwiliad o fedrau iaith staff er mwyn adnabod gallu presennol. Byddwn hefyd yn asesu beth sydd ei angen ar y corff i wireddu'r Cynllun a'r Polisi hwn. Drwy gyfrwng y ddau gam yma byddwn yn adnabod unrhyw fylchau o ran medrau ac, o ganlyniad, yn ymdrechu i lenwi unrhyw fylchau drwy ddatblygu medrau iaith Gymraeg staff presennol a chymryd cyfleoedd drwy recriwtio.

3.2 Recriwtio

Hysbysebair swyddi Plantlife Cymru yn y dyfodol gyda medrau iaith Gymraeg yn cael eu blaenoriaethu yn unol ag anghenion busnes, yn seiliedig ar lefel, lleoliad, defnydd, a maint y gallu (neu fel arall) o fedrau sydd ar hyn o bryd ar gael yn yr iaith Gymraeg ar lefel fîm. Dylai pecynnau recriwtio allanol fod yn ddwyieithog a chynnwys hunan-asesiad medrau ieithyddol.

Bydd yr archwiliad medrau'n cael ei ailadrodd o leiaf pob pedair mlynedd er mwyn cynnal cofnod manwl gywir o fedrau yn yr iaith Gymraeg a dealltwriaeth/agweddau o fewn y corff.

3.3 Hyfforddiant a datblygiad

Rydym yn annog pob aelod o staff i ddysgu a datblygu eu medrau yn yr iaith Gymraeg er mwyn i ni ddarparu'r gwasanaethau a amlinellir yn y Cynllun hwn yn y Gymraeg.

Bydd angen trafod anghenion hyfforddiant gyda staff newydd os bydd eu rôl yn digwydd yng Nghymru neu lle byddan nhw'n ymgysylltu â phobl sy'n byw yng Nghymru.

Darperir hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a diwylliant ac ynganu sylfaenol pan fydd yn cael ei adnabod fel rhywbeth dymunol o fewn asesiadau anghenion hyfforddiant staff.

Cefnogir datblygiad medrau yn yr iaith Gymraeg lle bod hynny'n berthnasol ac yn gymesur â'r rôl/cytundeb, ac yn cael ei adnabod fel bwlch yn asesiad medrau anghenion busnes a roddwyd ar waith.

3.4 Rhoi'r cynllun ar waith a'r gwaith monitro

Byddwn yn monitro cydymffurfiad gyda'r Cynllun hwn ar sail barhaus ac yn adrodd yn flynyddol o leiaf i'r Bwrdd ar hyn a'n polisi iaith Gymraeg. Mae cynllun gweithredu'n bodoli sy'n cydweddu â'r Cynllun hwn sy'n amlinellu'r prif weithrediadau y byddwn yn eu gwireddu er mwyn gweithredu'r Cynllun hwn.